

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 30ain o DACHWEDD , 2020

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Robert,s Delyth Algeri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Dylan Jones.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il o Dachwedd, 2020.

LLINELLAU MELYN AR Ffordd TYRPEG UCHAF GYFERBYN AR YSGOL

Derbyniwyd e-bost gan y sir gyda gwybodaeth fod angen i'r Cyngor Sir rhoi 28 o ddiwrnodau i'r cyhoedd i wneud cynrychiolaeth neu wrthwynebu'r cynigion o gael y llinellau melyn y fan dynodedig ar ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged. Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau bydd y Cyngor Sir mewn sefyllfa i archebu'r marciau ffordd diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, os oes gwrthwynebiadau bydd angen eu datrys cyn y gellir cyflwyno'r cyfyngiadau, a allai ohirio eu cyflwyno i unrhyw beth hyd at 3 mis.

MAES PARCIO GEGIN WEN

Pryder fod perchennog cerbyd mawr 'motorhome' yn parcio yn y maes parcio yn barhaol ac yn cymryd lle y ceir y staff yr Ysgol. Cyng. Austin Roberts am holi swyddogion y sir sut y gall y Cyngor Cymuned ddelio gyda'r mater yma.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Cyng. John Owen yn cadarnhau ei fod wedi bod yn atgyweirio'r ffens yn y maes parcio yn dilyn y cwyn fod rhai o'r cyhoedd yn mynd dros y ffens i'r goedwig ac yn creu llwybr anghyfreithlon drwy'r goedwig yn lle defnyddio mynedfa gywir drwy'r giat 'critch cratch' tu allan i'r maes parcio i'r llwybr cyhoeddus.

COEDEN NADOLIG

Bydd Cyng. John Owen a Cyng. Alun Morris yn trefnu'r goeden Nadolig ar gyfer y pentref yn Llanddoged ac yn addurno'r goeden gyda'r goleuadau.

CYNNAL A CHADW COFNODION DIWETHAF

1. Coeden wedi dod i lawr ar lwybr cyhoeddus rhwng Merllyn Uchaf a Chapel Tyn Celyn Maenan.
[Coeden wedi cael ei chlirio](#)
2. Draen wedi blocio wrth Aneddle, Llanddoged.
[Cadarnhawyd fod y draen wedi 'colapsio' a bydd Cyngor Sir Conwy yn ychwanegu y gwaith yma at ei rhaglen atgyweirio.](#)
3. Angen gwirio fod y bocsys halen wedi ei llenwi yn barod am y tywydd garw.
[Bocsys halen yn cael ei gwirio wythnos nesaf gan yr Adran Priffyrdd, Cyngor Conwy.](#)
4. Draen wrth fynedfa i Maes Mawr wedi blocio angen ei lanhau.
[Bydd Cyngor Sir Conwy yn edrych ar draen Maes Mawr o fewn y dyddiau nesaf.](#)
5. Dwr yn hel wrth gyffordd y ffordd am Sarn Belmont o ffordd Efail Uchaf wrth Tan y Celyn Llanddoged.
[Bydd y broblem dwr wrth gyffordd ffordd Sarn Belmont yn cael ei wneud dechrau'r flwyddyn.](#)

FFORDD FRON FRANCIS, LLANDDOGED

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda phreswilydd Tan y fron a swyddogion o Gyngor Conwy i drafod problemau hefo'r draeniau/gylis ar y ffordd Fron Francis. Hefyd nododd fod rhan o'r broblem i neud fod y draen wrth Aneddle Llanddoged wedi 'collapsio' ac yn creu trafferthion gyda'r draeniau sydd is i lawr.

CYNNAL A CHADW

1. Tyllau yn y ffordd Belmont, Llanddoged.
2. Tyllau yn y ffordd rhwng Carreg Ednyfed a Chae Brychiad, Llanddoged.
3. Gwrych yn gordyfu i'r ffordd ar ffordd Llanddoged ty drws nesaf i Siandel, Llanddoged.

ARGLAWDD TAN LAN

Cafwyd gwybodaeth fod yr arglawdd Tan Lan wedi cael ei ddifrodi gyda'r llifogydd unwaith eto a bod y ffermwyr lleol am ei atgyweirio yr arglawdd eu hunain.

CYLLID

Cyfrif Cyfredol - £4,507.29 Cyfrif Cadw - £2,970.15

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad